------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 13 Rhagfyr 2018

Amser: 10.00


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru


---

**Yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i wahardd y cyhoedd ar gyfer cyfarfod heddiw**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 1 - 4)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-30-18(P1) Rhagor o wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn dilyn Craffu Drafft Cyllideb

## 3 Ymchwil ac Arloesedd yng Nghymru: Papur Materion Allweddol

(10.00-10.30) (Tudalennau 5 - 23)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-30-18(P2) Ymchwil ac Arloesedd yng Nghymru: Papur Materion Allweddol (Saesneg yn unig)


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 4 Adroddiad drafft Cynllun Gweithredu Ffonau Symudol

(10.30-10.50) (Tudalennau 24 - 49)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-30-18(P3) Adroddiad drafft Cynllun Gweithredu Ffonau Symudol (Saesneg yn unig)

## 5 Ymchwiliad Gwefru Cerbydau Trydan yng Nghymru: Cynnydd a'r camau nesaf

(10.50-11.00) (Tudalennau 50 - 52)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-30-18(P4) Papur Gwefru Cerbydau Trydan yng Nghymru: Cynnydd a'r camau nesaf (Saesneg yn unig)

EIS(5)-30-18(P1)

Eitem 2

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi
Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@assembly.wales

4 Rhagfyr 2018

Annwyl Russell,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn sesiwn craffu Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 21 Tachwedd ac i roi rhagor o wybodaeth ar yr wybodaeth / pwyntiau canlynol yr wyf am ddelio â hwy yn eu tro.

- Darparu llythyr cylch gwaith interim diweddaraf Trafnidiaeth Cymru hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Bydd llythyr cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru hyd at 31 Mawrth 2019 yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ddechrau mis Rhagfyr.

- Darparu nodyn ar Trafnidiaeth Cymru yn cydymffurfio â deddf y cwmnïau a'r ffaith bod Trafnidiaeth Cymru yn mynd y tu hwnt i hynny ar gais Llywodraeth Cymru.

Cafodd Trafnidiaeth Cymru ei sefydlu o dan Ddeddf y Cwmnïau (2006) ac mae'n gwbl atebol i Weinidogion Cymru fel is-gwmni mewn perchnogaeth lwyr sydd wedi'i gyfyngu gan warant. Mae cwmpas gweithrediadau Trafnidiaeth Cymru wedi'i gyfyngu i'r gweithgareddau y gall Gweinidogion Cymru eu cynnal yn gyfreithiol. Nid yw'n bosibl felly i Drafnidiaeth Cymru gyflawni swyddogaethau sydd i tu allan i bwerau Gweinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru felly yn cadw cyfrifoldeb yn y pen draw dros faterion trafnidiaeth, ond gallant ofyn i Trafnidiaeth Cymru gynnal gweithgareddau ar eu rhan.

Fel is-gwmni yng mherchnogaeth Gweinidogion Cymru, mae Trafnidiaeth Cymru yn destun yr holl ddyletswyddau statudol sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi'u pennu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Mae'r egwyddorion cyffredin sy'n llywio'r berthynas rhwng Gweinidogion Cymru a Trafnidiaeth Cymru wedi'u hamlinellu yn y Cytundeb Rheoli. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod y gallai rhai gweithgareddau penodol fod yn destun cyfreithiau neu reoliadau perthnasol, gan gynnwys Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, mae

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Gweinidogion Cymru yn disgwyl i Trafnidiaeth Cymru sicrhau, wrth gyflawni ei swyddogaethau, y bydd yn cydymffurfio â'r egwyddorion llywodraethu canlynol sy'n berthnasol i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru:

- rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf;
- gwybod Pwy sy'n gwneud Beth a Pham;
- trafod ag Eraill;
- byw o fewn Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus;
- yn meithrin Cyflawni Arloesol;
- yn dod yn Sefydliad Dysgu; ac
- yn sicrhau Gwerth am Arian.

Mae'r Cytundeb Rheoli hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Trafnidiaeth Cymru gydymffurfio â chanllawiau corfforaethol a chyfarwyddiadau ar draws y Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys *Rheoli Arian Cyhoeddus yng Nghymru* sy'n pennu y prif egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau. Mae'r ddogfen hon yn anelu at egluro sut y dylai Trafnidiaeth Cymru (fel corff cyhoeddus yng Nghymru) ymdrin ag arian cyhoeddus yn onest ac er lles y cyhoedd.

- Hysbysu'r pwyllgor cyn gynted â phosib ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar gyllid ar gyfer adolygiad Reid.

Fel y trafodwyd yn y Pwyllgor, mae Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip yn gweithio gydag uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru i asesu'r gofynion cyllido i gefnogi uchelgeisiau adolygiad Reid. Bydd diweddariad ar gael i'r Pwyllgor maes o law.

- A yw Ysgrifennydd y Cabinet yn hyderus bod y gyllideb o £1.892 miliwn ar gyfer allforio, masnach a buddsoddi mewnol ar gyfer gweithgareddau megis digwyddiadau, teithiau masnach ac ati yn ddigonol? Gan bod nifer o bobl yn gwneud sylwadau am y diffyg brand cryf i Gymru dramor. A fydd hyn yn ddigonol i ddenu masnach a buddsoddiad?

Rwy'n hyderus y bydd y cyfran o'r £1.892 miliwn o gyllideb Masnach a Buddsoddi Mewnol sy'n cael ei neilltuo i gefnogi cwmnïau o Gymru i allforio yn ddigonol i ariannu gweithgarwch megis digwyddiadau tramor, teithiau masnach a grantiau ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag allforio. Rwyf wedi cydnabod yr heriau a allai wynebu busnesau Cymru wedi i'r DU ymadael â'r UE, a dyna pam yr wyf wedi cymryd y penderfyniad hefyd i neilltuo £7.5 miliwn yn ychwanegol i gefnogi gweithgarwch busnes yn gysylltiedig â Brexit o'r Gronfa Bontio, gan gynnwys cymorth i allforwyr, dros y dair blynedd nesaf.

Mae cymorth ar gyfer buddsoddwyr mewnol yn cael ei ariannu o nifer o wahanol gyllidebau ar draws yr adran, ac nid yw wedi'i gyfyngu i'r gyllideb gafodd ei neilltuo i arian Masnach a Buddsoddi Mewnol. Nid yw'n bosibl mesur faint o arian sy'n cael ei wario ar ddenu buddsoddiad mewnol gan bod hwn yn weithgarwch ar draws adrannau sy'n cael ei gefnogi gan Farchnata, Buddsoddi Mewnol a thimau o fewn Busnesau a Rhanbarthau. Mae cyfran o'r gyllideb sydd wedi'i dyrannu i rwydwaith Llywodraeth Cymru o dimau tramor, sy'n rhan o Swyddfa'r Prif Weinidog, hefyd yn cael ei defnyddio i ariannu gweithgarwch sy'n gysylltiedig â denu buddsoddi mewnol.

Mae cadw a datblygu buddsoddiad uniongyrchol tramor i Gymru yn amlwg yn hollbwysig, ac mae rhaglen farchnata Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor wedi rhoi twf o 60% yn yr ymwelwyr i masnach a buddsoddi cymru y llynedd. Er bod rhan fwyaf o'r gweithgarwch hwn yn canolbwyntio ar farchnad Llundain, mae ein darpariaeth ar gyfer cynnwys digidol wedi'i gynllunio i apelio at gynulleidfaoedd ehangach.

Dros y dair blynedd ddiwethaf rydym wedi datblygu brand cryf i Gymru - mae wedi ennill gwobrau ac wedi ei groesawu gan Randdeiliaid ar draws amrywiol sectorau. Gallaf eich sicrhau, ar draws y Llywodraeth, ein bod yn buddsoddi mwy na £1.892 miliwn i farchnata Cymru i'r byd ac rydym yn parhau i fuddsoddi i ddatblygu ein rhwydweithiau a'n effaith ryngwladol.

Mae marchnata twristiaeth yn aml yn tynnu sylw at Gymru, ac rydym yn buddsoddi llawer pob blwyddyn i farchnata Cymru i farchnadoedd rhyngwladol sefydlog a newydd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar Iwerddon, yr Almaen ac UDA. Mae'r gwaith yn cynnwys digwyddiadau, hysbysebu, partneriaethau a chysylltiadau â'r cyfryngau yn ogystal â gweithgareddau i dargedu'r sector cwmnïau teithio yn rhyngwladol. Roedd twf sylweddol a chalonogol o 24% mewn busnes o'r 100 uchaf o gwmnïau rhyngwladol i Gymru yn 2017. Wrth i Ganolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru agor, mae Croeso Cymru yn arwain y gwaith o hyrwyddo Cymru yn gyffredinol yn y farchnad digwyddiadau busnes, a rhagwelir y bydd yn werth o leiaf £24 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn i economi Cymru.

Dros y deunaw mis nesaf, bydd £3 miliwn hefyd yn cael ei fuddsoddi i hyrwyddo Cymru fel lle i astudio mewn marchnadoedd newydd - bydd datblygu'r farchnad hon yn sicrhau manteision hirdymor i economi Cymru ar sawl lefel.

- Rhoi gwybodaeth ar ddatblygiad y fargen gyda Plaid Cymru o £30 miliwn ar gyfer gwelliannau cyllid i'r gweithfeydd pŵer ym Mhort Talbot. Mae Cam 1 wedi digwydd, ond roedd Tata yn pryderu ynghylch cael rhagor o gyllid gan y Llywodraeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod y cymorth posibl gyda Tata yn ogystal ag amodau cyfreithiol i sicrhau swyddi.

Rwy'n gobeithio bod yr atebion yn mynd i'r afael â meysydd o ddiddordeb y Pwyllgor ac rwy'n edrych ymlaen at roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y blaenoriaethau o fewn fy mhortffolio. Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon